<u>**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd**</u> <u>**EDC 06-03 (Cofnodion)**</u>

**COFNODION**

**Dyddiad** **3 Ebrill 03**
**Amser** **9.00am – 12.30am**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Maldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog Datblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Phil Gray | WEFO |
| David Pritchard | EDD |
| Emyr Roberts | EPD |
| Ron Loveland | ISG |
| Sarah Lowe | EcAD |
| Jo Salway | HED |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Lynne Williams | Caerdydd 2008 Cyf |
| Yvette Vaughan Jones | Caerdydd 2008 Cyf |

**Ysgrifenyddiaeth**

John Grimes Clerc
Sian Wilkins Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Roedd Delyth Evans yn bresennol ar ran Ron Davies a anfonodd ei ymddiheuriadau.
2. Cafwyd datganiad o fuddiant gan Phil Williams sy'n derbyn grantiau gan Particle Physics a'r Astronomy Research Council i gefnogi'i waith gwyddonol. Mae hefyd yn olygydd ar adran Gwyddorau Ffisegol y Gwyddoniadur Cymreig newydd ac yn Llywydd ar Gymdeithas Addysg Wyddonol Cymru. Datganodd Dafydd Wigely fudd fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Hybu Gwyddoniaeth Cyf.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**EDC 06-03(p1)**
**EDC 06-03(p1a)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf. Amgaeir copi ohono fel atodiad i'w adroddiad.
2. O ran band eang, gofynnodd Aelod pa ganran o gyfnewidfeydd Cymru sydd â chyswllt ADSL. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio y gallai roi gwybod iddo cyn diwedd y cyfarfod. ***[Sylwer: Ar ôl y cyfarfod, cadarnhaodd swyddogion bod 45 o'r 440 o gyfnewidfeydd wedi'u cysylltu â ADSL, gan wasanaethu 45% o'r boblogaeth]*** Dywedodd Aelod arall bod erfin clod am fod Cymru ar y blaen i Ffrainc ym maes band eang yn dangos cryn ddifaterwch gan fod Cymru yn dal o dan y cyfartaledd Ewropeaidd. Roedd pryder hefyd bod prosiectau i ddatblygu seilwaith band eang gydag arian Amcan 1 yn dal heb fynd ymhellach na'r cam ymgeisio.
3. Gofynnwyd am fwy o fanylion am gyhoeddiad y Gweinidog yn ei adroddiad fod £15m o arian newydd yn cael ei fuddsoddi a bod 1000 o swyddi'n cael eu creu neu eu diogelu ym Mharc Busnes Llanelwy. Gofynnwyd hefyd a oedd y ffigur yn cynnwys y swyddi a grewyd ym mhencadlys newydd Heddlu'r Gogledd. Cytunodd y Gweinidog i roi esboniad. **[Gweithredu: Gweinidog DatEcon]** ***[Sylwer: Cadarnhawyd bod y £15m yn arian newydd, ei fod yn ychwanegol at yr unedau busnes ac Op TIC technium sy'n cael eu hadeiladu, a'i fod yn cynnwys prosiect yr heddlu].*** Nodwyd hefyd mai'r cynnydd yn y presept i Awdurdod yr Heddlu yn y Gogledd yw'r mwyaf yng Nghymru a mynegwyd gofid y gallai'r prosiect PFI hwn wneud iddo godi eto yn y dyfodol.
4. A rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 1994-99 bellach wedi cau, roedd Aelodau'n ofidus bod £35m o arian Ewropeaidd i bob golwg heb ei wario.. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yr arian wedi'i golli, mae'n dal yng nghyllideb y Cynulliad, i'w

wario mewn meysydd eraill. Dywedodd Aelodau bod hyn yn dangos mor bwysig yw ymrwymo arian rhaglenni'r cronfeydd strwythurol presennol ymlaen llaw rhag colli'r arian nes ymlaen. Dywedodd swyddogion fod yna resymau da iawn pam nad yw rhai mesurau wedi'u hymrwymo'n llawn eto. Ambell waith, lefel uchel y galw yw'r rheswm sy'n golygu bod yn rhaid wrth ofal mawr wrth ddewis y prosiect gorau.

5. Dywedodd un Aelod ei fod yn falch o weld y wybodaeth ychwanegol yn adroddiad y Gweinidog ar gyfarwyddeb WEEE. Dywedodd y Gweinidog fod yna farchnad anferth bosibl ar gyfer rheoli gwasatraff a bod gennym ni yng Nghymru lawer o arbenigwyr.
6. Rhoddodd y Gweinidog fwy o fanylion am brosiect Ffermio Dwr Cymru. Dywedodd ei fod yn faes dieithr ond bod potensial aruthrol iddo. Yn wahanol i ddulliau confensiynol o ffermio pysgod, mae llawer o fuddiannau amgylcheddol yn perthyn i'r systemau caeedig. Roedd y prosiect yn enghraifft dda o system gynhyrchu sy'n seiliedig ar ddefnyddio gwybodaeth, a gallai'r sector wneud cyfraniad mawr at dwf yr economi.
7. Dywedodd y Gweinidog na allai ddweud pryd byddai'r ONS yn cyhoeddi'r ffigurau GDP diweddaraf ond dywedodd na fyddai 'purdah' y cyfnod etholiadol yn effeithio ar y dyddiad cyhoeddi.
8. Roedd yr Aelodau yn fawr eu croeso i'r Prosiect Gweithio o Gartref a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno gyda'r Grwp Cenedlaethol ar Weithwyr o Gartref i ariannu gweithiwr maes. Roeddent am wybod serch hynny a fu'r Undebau Llafur ynghlwm wrth y trafodaethau ac a oedd yna rywbeth y gallem ei ddysgu o brofiadau'r Alban. Dywedodd y Gweinidog fod TUC Cymru wedi bod yn rhan o'r trafod ac yr edrychai ymhellach ar brofiad yr Alban.
9. Holodd un Aelod am broses yr Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol i'r fferm wynt fôr arfaethedig yn Scarweather Sands a beth oedd polisi'r Llywodraeth o safbwynt cynigion o'r fath. Dywedodd y Gweinidog, heb ragfarnu unrhyw gynllun, bod Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni cynaliadwy. Dywedodd fod Ymchwiliadau Cyhoeddus yn gorfod gwrando barn pobl leol a'r awdurdod lleol yn ogystal â rhoi ystyriaeth i bolisi'r Llywodraeth. Cytunodd i roi mwy o fanylion i'r Aelodau am drefn Ymchwiliadau Cyhoeddus. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
10. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd wedi trafod yn ddiweddar â rheolwyr Corus er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn trafod, ac yn parhau i drafod, ag uwch-reolwyr Corus, gan gynnwys ei COO newydd, a chyda'r DTI a'r undebau.
11. Gofynnodd Aelod pa wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi am daliadau'r RSA. Dywedodd y Gweinidog bod yr RSA yn cyhoeddi'i daliadau yn ei adroddiad blynyddol fesul sector ac yn ôl maint, hynny yn unol â gofynion y Ddeddf Datblygu Diwydiannol. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd am eu trafodaethau ag LG ynghylch cymorth ariannol. Cychwynnwyd y trafodaethau hynny beth amser yn ôl. Dywedodd y Gweinidog y câi datganiad ei wneud i'r Cynulliad unwaith y llwyddir i gau pen mwdwl y mater.

**Eitem 3: Caerdydd - Prifddinas Diwylliant Ewrop**

**EDC 05-03(p2)**

1. Cyflwynwyd y papur gan Lynne Williams. Esboniodd y broses ddewis a disgrifiodd ymgyrch Caerdydd 2008 hyd yma. Maent newydd anfon mwy o ddogfennau at banel y beirniaid, yn eu plith, asesiad o risg a chynllun busnes ar gyfer 2003 i 2009. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ym mis Mehefin 2003. Esboniodd Yvette Vaughan Jones mai prif thema'r cais oedd ei 'ddimensiwn Cymru gyfan'. Mae'r sector diwylliant yng Nghymru wedi'i wasgaru ledled Cymru. Naturiol felly oedd i'r cais ganolbwyntio ar weithgarwch y tu allan i Gaerdydd.
2. Cyfeiriwyd at yr Asesiad o'r Effeithiau Economaidd a wnaed gan Ysgol Fusnes Caerdydd. Gofynnodd y Cadeirydd bod copi'n cael ei anfon at aelodau'r Pwyllgor. **[Gweithredu: Clerc]**
3. Roedd rhai aelodau'n poeni sut y byddai'r prosiect yn cael ei ariannu. Roeddent am addewid y byddai'r sector preifat hefyd yn cyfrannu ac na fyddai'r prosiect yn troi'n 'bwll diwaelod' yn llyncu arian cyhoeddus i'w gynnal. Esboniodd Yvette Vaughan Jones bod Cyngor Dinas Caerdydd a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ariannu'r prosiect i raddau cyfatebol. Nid oedd Caerdydd 2008 Cyf fodd bynnag yn creu lefel newydd o ariannu ar gyfer prosiectau cyfalaf. Mae yna 25 o brosiectau cyfalaf, gwerth rhyw £634m, yn rhan o'r cais, ond y partneriaid yn y cais fydd yn eu rhedeg, nid Caerdydd 2008 Cyf. Dywedodd Lynne Williams bod angen profi nad oedd y cais yn cynnwys prosiectau sy'n bod eisoes.
4. Dywedodd Lynne Williams mai'r bwlch mwyaf yn y cais oedd y diffyg elfen bensaerniol, ond dywedodd y byddai adeilad eiconig fel adeilad newydd y Cynulliad, yn gam mawr at gau'r bwlch. Gobeithiwyd y byddai'r beirniaid yn gwerthfawrogi'r elfen chwaraeon yn y cais, gan ei fod yn faes sy'n neilltuol o gryf yng Nghymru.
5. Roedd yr Aelodau'n gallu gweld yn glir y manteision diwylliannol a ddeuai yn sgil cais llwyddiannus, ond roedd rhai am wybod pa mor hir fyddai'r manteision economaidd yn para. Dywedodd Yvette Vaughan Jones fod y cais yn creu partneriaethau newydd, megis dod â'r Cyngor Chwaraeon a Chyngor y Celfyddydau a chyrff yn y sector treftadaeth ynghyd. Y gobaith yw y byddent yn para wedi 2008. Ychwanegodd mai'r nod fyddai creu gweithgarwch fydd yn cynyddu'r GDP trwy'r diwydiannau creadigol, ac am na fyddai'r mwyafrif ohonynt yn dibynnu ar gymorthdaliadau, byddent yn gallu para tan wedi 2008.
6. Cydnabuwyd bod angen cefnogaeth y cyhoedd ar y prosiect. Yn ôl arolwg diweddar gan y South Wales Echo, mae 70% o bobl dan 30 yn ei gefnogi, er bod pobl henach yn llai cefnogol.
7. Roedd un Aelod yn teimlo nad oedd digon o bwyslais ar y cyfoeth o gelfyddyd weledol sydd i'w gael yng Nghymru a'r angen am oriel genedlaethol i ddangos celfyddyd fodern, gydag is-orielau ledled Cymru. Cytunodd y Gweinidog i godi hyn

yn y Cabinet. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

8. Roedd rhai Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig peidio â rhoi gormod o bwyslais ar effaith y cais ar Gymru gyfan ac na ddylai'r cais geisio'n rhy galed i ymateb i'r feirniadaeth bod 'popeth yn dod i Gaerdydd'. Mae'n bwysig hyrwyddo Caerdydd fel prifddinas Cymru. Dylai Cyngor Dinas Caerdydd weld ei fanteision i'r ddinas ac ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol ynddo, a pheidio â chuddio tu ôl i'r ddadl y byddai Cymru gyfan yn elwa o'r cais. Dywedodd Yvette Vaughan Jones fod y Cyngor yn gwbl gefnogol i'r cais. Teimlai fod gwneud yn fawr o'r ffaith bod yna ddiwylliant ym mhob cwr o Gymru yn cryfhau'r cais. Roeddent wedi ceisio rhoi gogwydd mwy Ewropeaidd i'r cais, lle mae gan brifddinasoedd rôl fel sbardun ar gyfer twf economaidd a diwylliannol. Mae anfanteision i hyn fodd bynnag, yn yr ystyr bod yn rhaid ennill enwebiad y DU yn gyntaf.
9. Gofynnodd un Aelod a fyddai diffyg seilwaith, fel trafnidiaeth, yn cael effaith ddrwg ar y cais. Dywedodd Lynne Williams iddynt ymdrin â'r mater hwn yn ail ddogfen y cais. Roedd dal 5 i 6 mlynedd ganddynt i roi pethau yn eu lle i lenwi'r bylchau. Dylid cofio serch hynny bod gan bob prifddinas ffaeleddau yn hyn o beth, ac mae'n bwysig chwilio am atebion llawn dychymyg i'r problemau, gan nad oes atebion cyflym i bob un ohonynt.
10. Dywedodd Yvette Vaughan Jones fod y ffaith bod Caerdydd wedi'i rhoi ar y rhestr fer yn golygu ei bod eisoes yn cael ei gweld fel Canolfan Ddiwylliant a bod gan Gymru ddelwedd bositif ledled Ewrop. Roedd hynny'n creu cyfleoedd real i gynhyrchwyr celf a chrefft o safon godi'u prisiau. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd bod y cais ynddo'i hun yn newid delwedd Cymru o fewn gwledydd Prydain.
11. Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd y Gweinidog bod awdurdodau lleol yn Ne Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn gefnogol iawn i gais Caerdydd.

**Eitem 4: Adroddiad Cynnydd ar Ddatblygu Cynaliadwy**

**EDC 06-03(p3)**

1. Y Gweinidog gyflwynodd y papur. Cyfeiriodd at ei bolisïau ynni yng Nghymru, at ddatblygiad strategaeth 10 mlynedd Bwrdd Croeso Cymru, a datblygiad nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol yng Nghymru, yn enwedig mewn busnesau bach a chanolig. Dywedodd fod swyddogion wedi defnyddio Offeryn Polisi Integredig yr Uned Datblygu Cynaliadwy i asesu prosiectau.
2. Nododd yr Aelodau fod adolygiad ynni'r Pwyllgor yn amserol ac yn bwysig, a bod lefelau carbon deuocsid wedi codi yng Nghymru ers 1999, er y gallai lefelau gwympo yn y dyfodol yn sgil cau gweithfeydd Corus. Gallai ehangu band eang yng Nghymru arwain at ganlyniadau da trwy leihau traffig, a'r pryder mawr ar y funud yw'r arafwch wrth roi mentrau amrywiol ar waith. Er bod gan y PDE hanes o hyrwyddo cynaliadwyedd, rhaid cynnal y momentwm.

3. Mewn papur diweddar yn PMC Amcan 1, dangoswyd bod y Cronfeydd Strwythurol wedi esgor ar waith da, er bod oedi wrth gyflawni rhai o'r targedau yn y fan yma hefyd.
4. Nododd yr Aelodau ei bod yn bwysig datblygu dulliau cadarn i fesur cynnydd yn y maes datblygu cynaliadwy. Cyfeiriwyd hefyd at y canlynol:

- bod angen i Fwrdd Croeso Cymru baratoi cynllun Twristiaeth Gynaliadwy;
- pwysigrwydd TAN 8 i gyflawni targedau ynni gwyrdd;

- bydd gan y Cynllun Gweithredu ar Entrepreneuriaeth ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth.

5. Dywedodd un Aelod fod gan First Hydro yn Llanberis ran bwysig i'w chwarae o ran cyflenwi ynni cynaliadwy. Mynegwyd y farn y dylid gofalu nad yw'r adolygiad arfaethedig o drethi busnes yn effeithio'n andwyol ar gyflenwyr ysbeidiol.

6. Wrth grynhoi'r drafodaeth, cytunodd y Gweinidog â llawer o'r hyn gafodd ei ddweud. Soniodd am y gwaith sy'n cael ei wneud i roi'r rhaglen Band Eang ar waith, ond dywedodd o safbwynt yr amgylchedd, nad yw'r cyfan yn newyddion da gan fod gan bob cyfrifiadur a gynhyrchir 'ôl troed carbon' o ryw 3 tunnell. Dywedodd fod diwydiant ar y cyfan yn cydnabod bod 'busnes gwyrdd' yn fusnes da am ei fod yn torri ar wastraff a chostau ac ati. Cytunodd fod angen datblygu llinynnau mesur da i ategu GDP. Dywedodd y byddai Cynllun Gweithredu'r Bwrdd Croeso ar Dwristiaeth Gynaliadwy yn barod erbyn diwedd y flwyddyn a chytunodd fod angen TAN 8 ond pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig ei gael yn iawn.

**Eitem 5: Polisi Gwyddoniaeth**

**EDC 06-03(p4)**

1. Cyfeiriodd y Gweinidog at benderfyniad brwdfrydig y PDE ar 28 Tachwedd o blaid cael polisi gwyddoniaeth i Gymru. Dywedodd ei fod yn cytuno'n llwyr â'r Pwyllgor ynghylch cymhwyso gwyddoniaeth ond dywedodd na oedd wedi'i argyhoeddi y byddai polisi ffurfiol ar wyddoniaeth yn esgor ar unrhyw fuddiannau ychwanegol. Dywedodd fod gwyddoniaeth yn weithgarwch bydeang - yr hyn oedd yn bwysig i Gymru oedd ei chymhwyso. Roedd y papur yn fraslun o fframwaith y Llywodraeth ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru a gofynnodd am sylwadau'r

PDE. Nododd hefyd fod Llywodraeth Iwerddon wedi cyhoeddi polisi gwyddoniaeth y flwyddyn flaenorol ac er ei bod wedi cymryd peth amser i'w ddatblygu, nid y polisi oedd i gyfrif am ei llwyddiant economaidd. Roedd hwnnw'n deillio o'i phwyslais ar ddenu mewnfuddsoddwyr tramor ac ar ddefnyddio'i llafurlu'n well.

2. Cyfeiriodd Aelodau at bwysigrwydd prosiectau fel Techniquest sy'n ennyn diddordeb pobl ifainc mewn gwyddoniaeth. Gwnaethant bwysleisio mor bwysig yw hi i annog mwy o fyfyrwyr i astudio gwyddoniaeth yn yr ysgol ac i helpu busnesau sydd am wneud gwaith ymchwil a datblygu ond a oedd yn eich chael hi'n anodd gwneud hynny oherwydd prinder amser. Ategodd y Gweinidog y farn honno, a chyfeirio at raglen XLWales, rôl cynghorwyr arloesi'r WDA a'r cynllun cwmni dysgu.
3. Cafwyd trafodaeth am yr ohebiaeth ddiweddar gyda'r Athro Gummett am gyfran sefydliadau addysg uwch Cymru o incwm Cyngor Ymchwil y DU. 3.3% oedd ffigur 2000/01 ond mae'n bwysig cofio ei bod yn bosibl bod ceisiadau llwyddiannus ar gyfer prosiectau mawr wedi ystumio'r ffigurau. Awgrymwyd y dylai Cymru anelu at gipio cyfran 'pro rata' o 5% o'r incwm ond dywedodd swyddogion fod ymchwil Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn dangos y byddai 4.5% yn gyfran tecach, hynny o ystyried y cymysgedd pynciau yng Nghymru.
4. Mynegwyd pryder nad oedd Cymru'n llwyddo i ddenu sefydliadau ymchwil mawr ac awgrymwyd y byddai polisi gwyddoniaeth yn ychwanegu at hygrededd Cymru fel ymgeisydd teilwng. O safbwynt nifer y ceisiadau a wneir am brosiectau'r Cyngor Ymchwil, dywedodd swyddogion fod Cymru'n lled lwyddiannus ond bod angen i sefydliadau wneud mwy o geisiadau, yn enwedig am brosiectau mawr. Teimlwyd bod cydweithio rhwng sefydliadau yn allweddol yn hyn o beth.
5. Cafwyd peth trafodaeth am y targed yn gwellcymru.com i ddyblu canran Cymru o'r arian a werir ar ymchwil a datblygu yn y DU erbyn Mawrth 2003. Nododd yr Aelodau fod y canran mewn gwirionedd wedi cwympo o 1.7% ym 1997 i 1.3%, sef o £70m. Dywedodd y Gweinidog fod y flwyddyn sylfaen a ddefnyddiwyd yn un neilltuol o uchel a bod y ffigur fel arfer o gwmpas yr 1.1% ac 1.3%. Mae Cymru'n Ennill bellach wedi disodli gwellcymru.com, ac mae hwnnw'n rhoi ymrwymiad clir i gynyddu gwariant ar ymchwil. Fodd bynnag, pwysleisiodd mai'r hyn oedd yn bwysig oedd cymhwyso gwyddoniaeth. Ni fyddai polisi gwyddoniaeth yn gwneud dim i hwyluso hynny ond fe fyddai'r rhaglenni sy'n bod eisoes yn gwneud.
6. Cyfeiriwyd at y rhaglen Technium. Dywedwyd wrth aelodau'r PDE yn ystod eu hymweliad ag America ei bod wedi colli ei chyfoesedd. Dywedodd y Gweinidog nad dyna'r neges glywodd ef ar ei ymweliad ond pwysleisiodd nad cartref y busnes sy'n bwysig, ond yn hytrach y mecanweithiau sydd ar gael i'w hybu a'i helpu.
7. Dywedodd yr Aelodau fod Gogledd Ddwyrain Lloegr a'r Alban newydd gyhoeddi polisïau gwyddoniaeth, a'u bod yn mynd ati mewn ffordd gydlyn i ddatblygu gwyddoniaeth yn eu rhanbarthau gan ddatgan yn glir y trywydd y maent am ei ddilyn. Dywedodd Aelodau hefyd nad oedd polisiau'n seiliedig ar gymhwyso

gwyddoniaeth yn gallu gweithio mewn gwagle - rhaid meddu ar wyddoniaeth er mwyn medru ei chymhwyso. Cytunodd y Gweinidog â hyn a dywedodd fod llawer iawn eisoes yn cael ei fuddsoddi yng Nghymru. Dywedodd hefyd mai yn y sector ysgolion y mae'r Gwyddelod yn buddsoddi fwyaf - maent yn gwario lawn cymaint ar ymchwil â Chymru.

8. Ar bwynt penodol, cyfeiriwyd at Amcan 1. Blaenoriaeth 2, Mesur 3 a fydd yn creu rhyw 247 yn unig o swyddi, am lefel gymharol fach o wariant, yn lle'r 15,000 a obeithiwyd. Y gobaith yw y gwnaiff y Gweinidog edrych ar hyn yn yr adolygiad canol tymor. Cydnabu'r Gweinidog y gofidiau gan ddweud y byddai'n ystyried y posibiliadau ar gyfer symud adnoddau rhwng categoriau bryd hynny.
9. Roedd Aelodau ar y cyfan yn siomedig iawn, ar ôl y drafodaeth adeiladol iawn ar 28 Tachwedd pan roddodd y Pwyllgor gefnogaeth frwd a thrawsbleidiol o blaid yr egwyddor o bolisi gwyddoniaeth, eu bod wedi cael ymateb mor negyddol gan y Gweinidog. Roeddent yn sylweddoli bod llawer iawn o waith da'n cael ei wneud yng Nghymru ond nid oeddent yn derbyn y byddai polisi gwyddoniaeth yn arwain at "ddatgysylltu gwyddoniaeth ... oddi wrth ein prif bolisïau". Roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol bolisïau trawsbynciol mewn meysydd eraill ac roedd yn anodd gweld pam ddylai gwyddoniaeth fod yn wahanol. Byddai polisi gwyddoniaeth yn:

- dod ynghyd yr holl waith da sy'n cael ei wneud;
- ein helpu i ganfod bylchau;
- cael mwy o bobl i ymddiddori mewn gwyddoniaeth;
- sbarduno disgyblion ac athrawon mewn ysgolion;
- annog a helpu'r gymuned wyddonol i gydweithio â'i gilydd;
- helpu Cymru i ennill ei lle fel cyfrannwr pwysig ar lefel y DU ac Ewrop.

10. Pwysodd yr Aelod ar i'r Gweinidog gadw meddwl agored am y mater.

12. Wrth grynhoi ei safbwynt, dywedodd y Gweinidog y byddai'n fwy na pharod i gadw'i feddwl yn agored, ond ei fod yn dal yn teimlo, gan fod gwyddoniaeth yn weithgarwch bydeang, ei fod yn wahanol i feysydd polisi eraill. Mae yna eisoes nifer dda o bolisïau i hybu arloesedd a'i farn ef oedd na fyddai polisi ar wyddoniaeth yn ychwanegu dim at hynny.

13. Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd mai mater i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd newydd fyddai hyn bellach ac mai mater i'r rheini sydd o blaid polisi gwyddoniaeth yw dadlau'u hachos. Y Pwyllgor newydd fydd yn penderfynu faint o flaenoriaeth i roi i'r mater.

**Eitem 6: Etifeddiaeth y Pwyllgor Datblygu Economaidd newydd**

**EDC 06-03(p5)**

1. Cytunodd yr Aelodau ar y papur fel ag yr oedd heblaw:

- bod angen cryfhau paragraff 6a i adlewyrchu'r drafodaeth flaenorol.
- Dylid cyfeirio at adroddiad rheolaidd y Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd i'r PDE. Dylai fod yn rhan bwysig o waith y Pwyllgor newydd.
- Dylai monitro Cymru'n Ennill fod yn eitem arall o'r gwaith craidd.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 05-03 Cofnodion (Drafft)**
**EDC 06-03 Camau heb eu cymryd eto**

1. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.
2. Cyfeiriad at 'weithredu' oedd heb ei gyflawni ers Tachwedd 2002 ynghylch y drafodaeth â Dylan Jones Evans. Dywedodd swyddogion iddynt gael trafodaethau helaeth gydag ef ond nad oedd eto wedi cyflwyno prosiect i WEFO.
3. Wrth gloi, diolchodd y Cadeirydd bawb am eu cyfraniad dros y pedair blynedd diwethaf. Canmolodd ddau Gadeirydd cyntaf y Pwyllgor; Ron Davies, pensaer datganoli a Val Feld, a oedd meddai wedi cyfrannu mwy at gyfle cyfartal yng Nghymru na'r un unigolyn arall. Gadawodd etifeddiaeth gyfoethog a thestun balchder i'r Cadeirydd oedd cael cymryd yr awenau ar ei hôl.
4. Diolchodd Phil Williams y Cadeirydd am ei gwaith wrth gadeirio'r Pwyllgor a dywedodd ei fod yn credu mai'r PDE oedd un o bwyllgorau mwyaf llwyddiannus sesiwn cynta'r Cynulliad. Mynegodd y Cadeirydd a'r Aelodau eu diolch i'r Clercod am eu cefnogaeth.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**